EISTEDDFOD GADEIRIOL MYNYTHO

a gynhelir yn

Y NEUADD

Prynhawn a Nos Sadwrn, Ebrill 8fed 2023

Cyfarfod Prynhawn Sadwrn
Tâl Mynediad: £3.00 (Plant 50c)
Dechreuir am 12.30 o'r gloch

Cyfarfod Nos Sadwrn
Tâl Mynediad: £4.00 (Plant 50c)
Dechreuir am 6.30 o'r gloch

DECHREUIR Y DDAU GYFARFOD YN BRYDLON

EISTEDDFOD GADEIRIOL MYNYTHO

Llywydd y Dydd:
Natalie Coles Williams, Y Ffôr

Arweinyddion
Mr. Gwilym Jones
Mrs. Netta Pritchard

Beirniaid
Cerdd a Cherdd Dant: Rhiannon Lewis, Cwmann
Llefaru a Rhyddiaith: Elin Williams, Cwmann
Barddoniaeth: Karen Owen, Penygroes
Arlunio a Gwaith Llaw: Sioned Williams, Aberdaron

Cyfeilydd
Mr. Dafydd Lloyd Jones, Bae Colwyn

Swyddogion y Pwyllgor
Cadeirydd: Mrs. Bethan Dyer, Parc-y-Delyn
Is-Gadeirydd: Mrs. Mair Owen, Nant
Trysorydd: Mrs. Sian Thomas, Gwynfa
Is-Drysorydd: Glenys Williams, 4 Cae Arfryn
Ysgrifennydd: Mr. Dilwyn Thomas, Meifod, Mynytho, Pwllheli, Gwynedd LL53 7RH
Ffôn: (01758) 740 704 Symudol: 07979 733 123

RHESTR TESTUNAU

LLENYDDIAETH

1. Oed Meithrin a Derbyn: Llun a Brawddeg. Gwobr: Medal a £7 i'w rhannu.
2. Blwyddyn 1 a 2: Cerdyn Post. Gwobr: Medal a £8 i'w rhannu.
3. Blwyddyn 3 a 4: Llythyr Diolch. Gwobr: Medal a £9 i'w rhannu.
4. Blwyddyn 5 a 6: Araith ar unrhyw bwnc. Gwobr: Medal a £12 i'w rhannu.
5. Dan 15 oed: Darn o farddoniaeth: Testun agored. Gwobr: £16 i'w rhannu.
6. Dan 16 oed: Darn o ryddiaith: Testun agored. Gwobr: £18 i'w rhannu.
7. Dan 19 oed: Darn ffeithiol neu greadigol yn ymateb i'r gosodiad - 'Fel hyn ma' hi fod'. Gwobr: Tlws (rhoddedig gan Mrs. Ann Jones er cof am ei phriod, Thomas W. Jones) a £12.
8. Dan 25 oed: Unrhyw ffurf boed ryddiaith neu farddoniaeth - 'Rhyddid'. Gwobr: Tlws y Prifardd (rhoddedig gan deulu'r diweddar Brifardd Moses Glyn Jones).
9. Cyfansoddi Darn Llefaru i blant dan 6 oed. Gwobr: £20. (rhoddedig er cof am y diweddar Heulwen M. Thomas, Meifod). (Cedwir hawl gan y Pwyllgor i gyhoeddi'r cynnyrch buddugol).
10. Emyn i ddathlu bedydd. Gwobr: £10.
11. Cywydd heb fod dros ugain llinell, 'Dychwelyd'. Gwobr: £10
12. Soned, 'Y Lleuad'. Gwobr: £10.
13. Telyneg, 'Cadwynau'. Gwobr: £10.
14. Englyn, 'Caer'. Gwobr: £10 (rhoddedig er cof am y diweddar Mr. Sam Jones).
15. Englyn Ysgafn, 'Cam gwag'. Gwobr: £10 (rhoddedig er cof am y diweddar Mr. Sam Jones).
16. Cystadleuaeth y Gadair: Cerdd gaeth neu rydd, heb fod dros 100 llinell, 'Y Wawr'. Gwobr: Model o Gadair yr Eisteddfod (rhoddedig gan deulu Gwelfryn) a £30 (rhoddedig gan Siân a Dafydd er cof am eu rhieni).
17. Rhyddiaeth: Ysgrif - 'Synfyfyrio'. Gwobr: Tlws (rhoddedig) i'w gadw am flwyddyn a £15 (rhoddedig).

Cynhelir Seremoni Tlws y Prifardd a Seremoni'r Cadeirio yng nghyfarfod nos Sadwrn. Cenir Cân y Cadeirio gan Mrs Carol Pugh, Botwnnog a chenir y Corn Gwlad gan Carwyn Evans, Llanbedrog. Y Gadair o waith Miriam Jones, Penmorfa, Llanengan.

Beirniadaethau 1-6 prynhawn Sadwrn
Beirniadaethau 7-17 nos Sadwrn

Rhestr Testunau ar gael yn gyflawn ar www.steddfota.cymru

18. I bob oed: Cyfansoddi cân ar eiriau'r Darn Llefaru buddugol yn Eisteddfod 2019). Gwobr: £12. (Beirniadaeth nos Sadwrn).

Bwrw Bai

Gofynnodd Nain un bore
"A wyt ti'n blentyn da?"
"Wel, ydwyf siwr", atebais i
" 'Rwy'n blentyn da . . . da . . . da".

"Wel dwed pwy a fu'n taflu
Y brecwast hyd y llawr?
Mae'r holl degannau dros y lle -
'Does dim yn y bocs mawr".

"Y gath, Nain . . . y gath wnaeth hyn,
Mae'n edrych yn reit gam,
Fe gliriaf fi holl lanast pws . . .
. . . Ond, plîs . . . paid dweud wrth Mam".

Dilys Baker-Jones, Bow Street, Ceredigion

ARLUNIO

Unrhyw gyfrwng / gyfryngau

1. Meithrin a Derbyn: Llun Bywyd Gwyllt. Gwobr: £7.
2. Blwyddyn 1 a 2: Llun Crwban y Môr. Gwobr: £8.
3. Blwyddyn 3 a 4: Argraffu. Thema: Planhigion. Gwobr: £9.
4. Blwyddyn 5 a 6: 'Collage'. Thema: Môr a Mynydd. Gwobr: £10.
5. Blwyddyn 7, 8, 9 a 10: Darn o waith ar y thema 'Argyfwng Amgylcheddol'. Gwobr: £11.
6. I bob oed: Creu darlun o dŷ hunan-gynhaliol (self-sufficient). Gwobr: Cwpan (rhoddedig) er cof am Gwynfor Ellis a £12 (£10 yn rhoddedig).

GWAITH LLAW

1. Meithrin a Derbyn: Gwenyn. Gwobr: £7.
2. Blwyddyn 1 a 2: Creu darn o gelf gyda 'plastig' sydd wedi eu canfod ar y traeth a thynnu ei lun ar y traeth. Gwobr: £8.
3. Blwyddyn 3 a 4: Creu symudyn (mobile) lliwgar i'w hongian yn yr ardd yn defnyddio deunyddiau wedi eu hail-gylchu. Gwobr: £9.
4. Blwyddyn 5 a 6: Creu penwisg greadigol a ffasiynol. Thema: byd natur. Gwobr: £10.
5. Blwyddyn 7, 8, 9 a 10: Creu cerflun amgylcheddol yn arddull Andy Goldsworthy a thynnu llun ohono yn ei gynefin. Gwobr: £11.
6. I bob oed: Darn o grefftwaith. Thema: 'Argyfwng Amgylcheddol'. Gwobr: £12.

CYFARFOD PRYNHAWN SADWRN

Dechreuir y cyfarfod gyda'r cystadlaethau Canu a Llefaru dan 6 oed.

CERDDORIAETH

1. **Unawd dan 6 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £4; 2, £3; 3, £2.**
2. **Unawd dan 6 oed (cyfyngedig i ddisgyblion Ysgol Foel Gron): Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £4; 2, £3; 3, £2.**
3. **Unawd Bl. 2 ac iau: 'Mr. Triongl', E. Olwen Jones, allan o 'Byd Plentyn' (Y Lolfa). Rhagarweiniad ar gael o Adran yr Eisteddfod Glan-llyn. Gwobr: 1, Medal a £4.50; 2, £3.50; 3, £3.**
4. **Unawd Bl. 3 a 4: 'Dere Di, Dere Do'. Rhyddid Williams, allan o 'Alawon Trysor o Gân', Hughes a'i Feibion / Tŷ Cerdd. Cywair Eb fwyaf (Eb/Eb) neu C fwyaf (C/C). Copiau ar gael ar wefan Tŷ Cerdd. Gwobr: 1, Medal a £5; 2, £4; 3, £3.**
5. **Unawd Bl. 5 a 6: 'Hydref', Llifon Hughes Jones, allan o 'Rhyfeddodau' (Y Lolfa). I'w chanu yn Eb yn unig. Gwobr: 1, Medal a £6; 2, £4; 3, £3.**
6. **Unawd Piano Bl. 6 ac iau: Hunan-ddewisiad heb fod yn fwy na 3 munud. Gwobr: 1, Medal a £6; 2, £4; 3, £3.**
7. **Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 6 ac iau: 'Hen Fenyw Fach Cydweli' allan o 'Caneuon Gwerin i Blant' (Cymdeithas Alawon Gwerin). I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair addas i'r cystadleuydd. Gwobr: 1, Medal a £6; 2, £4; 3, £3.**
8. **Unawd Cerdd Dant Bl. 6 ac iau: Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £6; 2, £4; 3, £3.**
9. **Deuawd Bl. 6 ac iau: 'Rhys', Olwen Williams allan o 'Cornel Canu 2' (Gwasg Gomer / Y Lolfa). Copi ar gael fel E-lyfr ar wefan Y Lolfa. Gwobr: £16 i'w rhannu.**
10. **Deuawd Cerdd Dant Bl. 6 ac iau: 'Distawrwydd'. T. Llew Jones, allan o 'Penillion y Plant' (Gwasg Gomer). Cainc: 'Rhos y Nant', Menai Williams (112), allan o 'Ceinciau'r Dyffryn a Mwy' (Cymdeithas Cerdd Dant Cymru). Gwobr: £16 i'w rhannu.**
11. **Unawd Merched/Bechgyn Bl. 7, 8 a 9: 'Pen y Bryn', Meirion Wynn Jones, allan o 'Tair Cân y Wlad' (Cyhoeddiadau Curiad). Cywair uwch (F/E') neu gywair is (D♭/C') neu 'Y Dderwen', Meirion Wynn Jones (Cyhoeddiadau Curiad). Cywair uwch (D/D') neu gywair is (C/C'). Mae hon yn gystadleuaeth ar gyfer lleisiau trebl yn ogystal â lleisiau sydd wedi torri. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) ac £12; 2, £10; 3, £8.**
12. **Unawd Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9: 'Hwiangerdd Afon Tywi' (detholiad), Mererid Hopwood. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod Glan-llyn. Cainc: 'Lowri', Menai Williams (1122), allan o 'Ceinciau'r Dyffryn a Mwy' (Cymdeithas Cerdd Dant Cymru). Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig er cof am Guto ac Enid Jones, Egryn, Parciau, Mynytho) a £12; 2, £10; 3, £8.**
13. **Unawd Piano Bl. 7, 8 a 9: Hunan-ddewisiad heb fod yn fwy na 5 munud. Gwobr: 1, Cwpan a £12; 2, £10; 3, £8.**
14. **Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 7, 8 a 9: 'Y Gwcw Fach Lwydlas' allan o 'Canu'r Cymry' (Cymdeithas Alawon Gwerin). I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair addas i'r cystadleuydd. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £12; 2, £10; 3, £8.**

15. Deuawd Bl. 7, 8 a 9: 'Gweddi Hwyrol', E. Humperdinck. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn. Geiriau Cymraeg: Glanant Jones. I'w chanu yn C fwyaf yn unig. Y cyfeilydd i orffen ym mar 25 gan hepgar nodyn B y bas a gweddill y coda. Gwobr: £20.
16. Deuawd Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9: 'Dwy Law yn Erfyn', T. Rowland Hughes, allan o 'Fesul Gair' (Gwasg Gomer). Cainc: 'Rhos Aeron', Rhiannon Ifan (1122), allan o Ceinciau'r Allwedd (Cyfrol 1), Cymdeithas Cerdd Dant Cymru. Gwobr: £20.

LLEFARU

1. Dan 6 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £4; 2, £3; 3, £2.
2. Dan 6 oed. (cyfyngedig i ddisgyblion Ysgol Foel Gron): 'Bwrw Bai', Dilys Baker-Jones (gweler tud 3) Gwobr: 1, Medal a £4; 2, £3; 3, £2.
3. Unigol Bl. 2 ac iau: 'Gwesty Moethus', Mei Mac allan o 'Hwrê, Mae Hi'n Wyliau! (Gwasg Carreg Gwalch). Gwobr: 1, Medal a £4.50; 2, £3.50; 3, £3.
4. Unigol Bl. 3 a 4: 'Ar ôl Methu Unwaith', Myrddin ap Dafydd allan o 'Geiriau Bach Chwareus (Gwasg Carreg Gwalch). Gwobr: 1, Medal a £5; 2, £4; 3, £3.
5. Unigol Bl. 5 a 6: 'Yr Hen Dŷ Gwag', T. Llew Jones, allan o 'Trysorfa' T. Llew Jones. Gwobr: 1, Medal a £6; 2, £4; 3, £3.
6. Grŵp Llefaru Bl. 6 ac iau (6-12 mewn nifer): 'Merched Becca', Arwel John, allan o 'Ar Lan fy Afon i' (Gwasg Dinefwr), neu i Adrannau (6-12 mewn nifer): 'Y Gwynt a'r Haul', W. Rhys Nicholas, allan o 'Llyfrau Darllen Newydd', Llyfr 2, T. Llew Jones. Gwobr: £20.
7. Unigol Bl. 7, 8 a 9: 'Amazonia', Einir Jones, allan o 'Daeth Awst, Daeth Nos', Barddas. Allan o brint. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £12; 2, £10; 3, £8.
8. I bod oed: Cystadleuaeth 'Sgen ti dalent?' (Gweler y manylion yn rhestr cystadlaethau cyfarfod nos Sadwrn). Gwobr: £50 (gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru).
9. Cymdeithas Eisteddfodau Cymru. Perfformio Darn Digri Agored heb fod yn fwy na 4 munud o hyd. Gellir dewis barddoniaeth neu ryddiaith sydd eisoes wedi eu cyhoeddi, neu gellir cyflwyno darn gwreiddiol (rhestr awduron darnau digri ar gael ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru - www.steddfota.cymru).
   Disgwylir i'r iaith fod yn weddus. Dylai'r pwyslais fod ar gyfleu a throsglwyddo hiwmor y darn. Caniateir defnyddio props os yw hynny'n ychwanegu at y perfformiad.
   Bydd ennill gwobr (1af, 2il neu 3ydd) mewn dwy eisteddfod leol rhwng Eisteddfod Genedlaethol 2022 a diwedd Gorffennaf 2023 yn rhoddi'r hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol 2023. Gwobr: 1, £20; 2, £15; 3, £10.

Ysgoloriaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Cynigir Ysgoloriaeth gwerth £500 yn flynyddol i alluogi'r enillydd i dderbyn hyfforddiant pellach ym maes perfformio ar lwyfan eisteddfodol.
Ni chaniateir ennill yr ysgoloriaeth fwy nag unwaith.

CYFARFOD NOS SADWRN

Dechreuir y cyfarfod gyda'r gystadleuaeth Unawd Bl. 10 a dan 19 oed.

Y cystadleuwyr yng nghystadleuaeth rhif 9 i drafod eu dewisiadau gyda'r Cyfeilydd ychydig ddyddiau cyn yr Eisteddfod. Ffôn: (01492) 531 006.

CERDDORIAETH

1. **Unawd Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr 1, Cwpan (rhoddedig) a £14; 2, £12; 3, £8.**
2. **Unawd Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr 1, Tlws (rhoddedig er cof am y diweddar John R. Thomas, Meifod) a £14 (rhoddedig).**
3. **Unawd Piano Bl. 10 a dan 19 oed: Hunan-ddewisiad heb fod yn fwy na 7 munud. Gwobr 1, Cwpan Coffa Eiluned Douglas-Williams (i'w gadw am flwyddyn) a £14; 2, £12; 3, £8.**
4. **Dan 19 oed: Canu unrhyw offeryn heblaw'r piano: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £14; 2, £12; 3, £8.**
5. **Deuawd Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: £24.**
6. **Deuawd Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: £24**
7. **Grŵp Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed (3-8 mewn nifer) Trillais neu fwy. Caniateir dyblu lleisiau: Unrhyw. Gwobr: £25.**
8. **Unawd dan 25 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan i'w gadw am flwyddyn (rhoddedig er cof am Humphrey Jones, Hafod-y-Grug) a £16; 2, £12; 3, £10.**
9. **Unawd allan o Sioe Gerdd dan 25oed: Hunan-ddewisiad heb fod yn fwy na 5 munud. (Gall pob cystadleuydd ddarparu ei gyfeiliant ei hun, e.e. CD neu allweddell wedi ei raglennu, ond ni ddylid cynnwys unrhyw leisiau cefndir o gwbl). Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig er cof am John Elwyn Parry, Coed-y-Fron) a £16; 2, £12; 3, £10.**
10. **Unawd i rai dros 55 oed: Canu Unrhyw Emyn. Gwobr: 1, Cwpan (er cof am y ddiweddar Katie Williams, Maesteg, Llanbedrog) ac £20; 2, £15; 3, £10 (rhoddedig).**
11. **Cân Werin Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (er cof am y diweddar Einion P. Jones, a fu'n Drysorydd yr Eisteddfod) a £16; 2, £12; 3, £10.**
12. **Unawd Cerdd Dant Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan i'w ddal am flwyddyn (er cof am Carys Jones, Awel-y-Mynydd) a £16; 2, £12; 3, £10.**
13. **Unawd Gymraeg Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig er cof am Katie Wyn Jones gan y teulu), ac £20; 2, £16; 3, £12.**
14. **Her Unawd: Unrhyw unawd o gyfanwaith (Opera/Oratorio). Gweler Amod 5. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig gan deulu 18, Bryn Adda, Bangor, er cof am Catherine Rhianwen Jones) ac £20; 2, £16; 3, £12.**
15. **Deuawd Agored: Unrhyw. Gwobr: £26.**
16. **Parti Unsain neu Ddeulais: Unrhyw. Gwobr: £35.**

17. Cystadleuaeth Gorawl Eisteddfodau Cymru. Unrhyw gyfuniad o leisiau heb fod yn llai nag 20 mewn nifer, i gyflwyno dau ddarn cyferbyniol heb fod yn fwy nag 8 munud, ac i gynnwys darn gan gyfansoddwr o Gymro.
Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng Mai 2022 a Mai 2023 yn rhoddi'r hawl i gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023. Gwobr: 1, Cwpan a £70; 2, £50; (Y cwpan i'w ennill dair gwaith yn olynol neu bedair gwaith i gyd).

LLEFARU

1. Unigol Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £14; 2, £12; 3, £8.
2. Unigol dan 25 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £16; 2, £12; 3, £10.
3. Prif Gystadleuaeth Llefaru: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig gan deulu Bwthyn Ebeneser, Abererch, er cof am Stanley Rees Thomas) ac £20; 2, £16; 3, £12.
4. Cymdeithas Eisteddfodau Cymru. Perfformio Darn Digri Agored heb fod yn fwy na 4 munud o hyd (Gweler cystadleuaeth rhif 9 yng nghyfarfod y prynhawn).
5. Grŵp Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Tarian (rhoddedig) a £70; 2, £50.

I bob oed: Cystadleuaeth 'Sgen ti dalent?
Ceir 4 munud i ddiddanu'r gynulleidfa.
(Caniateir 2 funud ychwanegol i osod y llwyfan os yw cystadleuwyr yn dymuno defnyddio offer). Rhaid i'r perfformiad fod yn yr iaith Gymraeg neu'n ddi-iaith. Ni chaniateir i gystadleuwyr berfformio darn a berfformir ganddynt mewn cystadleuaeth arall, e.e Cân o Sioe Gerdd. Gwobr: £50 gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru (i'w rannu yn ôl dymuniad y Beirniaid).

AMODAU

1. Bydd gan y Beirniaid hawl i atal, rhannu neu gwtogi gwobrau.
2. Rhaid i bawb a fydd yn cystadlu ar destunau yr Urdd fod yn yr oedran priodol ar y dydd olaf o Awst, 2023, a'r holl gystadleuwyr eraill i fod yn yr oedran priodol ddydd yr Eisteddfod. Ni chaniateir cystadlu ond mewn dosbarth sy'n cyfateb i oedran y cystadleuydd.
3. Ceidw y Pwyllgor hawl i fynnu prawf o ddilysrwydd unrhyw gystadleuydd.
4. **Rhaid i bob cystadleuydd ofalu am gopi i'r Beirniad a'r Cyfeilydd ar yr eitemau agored.**
5. Ni chaniateir cystadlu ond yn Gymraeg.
6. Disgwylir i'r ymgeiswyr anfon eu henwau i'r Ysgrifennydd erbyn Ebrill 6, 2023.
7. Ni chaniateir gwrthdystiad cyhoeddus, ond un ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Bydd barn y Pwyllgor yn derfynol.
8. Y Cyfansoddiadau a'r Gwaith Llaw i fod yn llaw'r Ysgrifennydd (ac nid i'w hanfon i'r Beirniaid) erbyn Mawrth 18, 2023. Rhodder ffugenw yn unig wrth y gwaith gan amgau enw a chyfeiriad ar wahân.
9. Gellir cael copi o'r beirniadaethau ychydig ddyddiau ar ôl yr Eisteddfod, ond ni ddychwelir y cynhyrchion llenyddol cyn Ebrill 30, 2023, yna fe'u dychwelir ond gwneud cais amdanynt gan anfon amlen addas stampiedig.
10. Cedwir hawl gan y Pwyllgor i gyhoeddi detholiad o'r cynhyrchion.
11. Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am ddamweiniau na cholledion a all ddigwydd yn ystod yr Eisteddfod.

Gellir cael unrhyw wybodaeth ychwanegol gan yr Ysgrifennydd.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at dreuliau yr Eisteddfod. Diolch i deulu Gwelfryn am eu rhodd o Gadair yr Eisteddfod; Mrs. Ann Jones a theulu'r diweddar Brifardd Moses Glyn Jones.

Argraffwyd gan Wasg Cymru, Penrhyndeudraeth (Ffôn: 01766 770001)